3 o bob 10 person ag anhwylder bwyta ddim yn cael eu hatgyfeirio i dderbyn triniaeth : Iechyd Meddwl Cymru

Mae ymchwil newydd yn awgrymu nad yw tri o bob deg person ag anhwylderau bwyta yn cael eu hatgyfeirio gan eu Meddygon Teulu at wasanaeth er mwyn derbyn triniaeth, a hynny er bod canllawiau meddygol yn pwysleisio'r angen am atgyfeirio pobl ar frys.

Tra bod hanner o'r bobl hynny ag anhwylder bwyta wedi derbyn gofal 'da neu da iawn' gan eu Meddygon Teulu, mae hanner yn credu fod y gwasanaeth a dderbyniwyd yn druenus neu'n druenus iawn, a hynny yn ôl arolwg o bron i 1,700 o bobl.

Mae Beat, sef elusen anhwylder bwyta y DU sydd wedi cynnal yr ymchwil, yn galw am fwy o hyfforddiant i fyfyrwyr meddygol sydd yn arbenigo mewn practis cyffredinol fel bod yr holl Feddygon Teulu yn medru cynnig diagnosis i symptomau seicolegol ac ymddygiadol o anhwylderau bwyta fel bod modd atgyfeirio yn syth.

Darllen rhagor: Iechyd Meddwl Cymru